# Cynigion a Gwelliannau i'w trafod yn y Dyfodol

# Cynigion heb Ddyddiad Trafod a gyflwynwyd ar 17 Hydref 2005

**NNDM2641**

**Gwenda Thomas (Castell-nedd) R**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 31.2:

Yn cefnogi mewn egwyddor deddfwriaeth i:

1. Gychwyn Adran 175 Deddf Addysg 2002 (dyletswyddau AALlau a chyrff llywodraethu mewn perthynas â lles plant) yng Nghymru; a

2. Chytuno y dylai unrhyw arweiniad a gyhoeddir dan Adran 175(4) gynnwys materion megis enwebu llywodraethwr dynodedig i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant a sefydlu cronfa ddata AALl o lywodraethwyr dynodedig.

*Mae datganiad o bwerau cyfreithiol a fyddai'n caniatáu'r ddeddfwriaeth a gynigir, ac arwydd o'r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill er mwyn helaethu ar y cynnig, fel a ganlyn:*

**Datganiad o Bwerau Cyfreithiol**

Mae Adran 216(4) Deddf Addysg 2002 yn rhoi pwer i'r Cynulliad Cenedlaethol gychwyn darpariaethau Deddf 2002 mewn perthynas â Chymru.

**Goblygiadau o ran Adnoddau**

Ar hyn o bryd, nid yw Adran 175 Deddf Addysg 2002 wedi ei chychwyn yng Nghymru, er iddi gael ei chychwyn yn Lloegr ym mis Mehefin 2004. Ni fydd y gofyniad hwn yn golygu unrhyw gynnydd mewn cydnabyddiaeth ac fe gyflawnir y dyletswyddau hyn dan y trefniadau cyllidebu cyfredol. Bydd unrhyw wariant prin werth sôn amdano.